# CANLLAWIAU CYMORTH ARIANNOL

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

## Nodiadau i'ch cynorthwyo

### Bwriad Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Ein bwriad yw cefnogi cymuned fywiog ym mhlwyf Llanddeiniolen. Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn cefnogi y gwerth sydd yn y gwaith mae'r sector wirfoddol yn ei wneud yn y gymuned. Byddwn yn darparu cefnogaeth ariannol i fudiadau cymunedol, sydd yn gweithio er lles trigolion pentrefi o fewn Cymuned Llanddeiniolen, gyda'r bwriad o wella'r dewis o wasanaethau neu weithgareddau yn y gymuned.

Dylid cyflwyno eich cais am rhodd i'r Cyngor Cymuned erbyn **Medi 20fed**. Bydd trafodaeth am geisiadau ariannol yn cael ei wneud yng nghyfarfod mis Hydref.

**Pwy all geisio am Rodd Ariannol?**

Isod rhoddir enghreifftiau o roddion gellir eu rhoi: -

- Mudiadau Elusennol
- Mudiadau ar gyfer yr henoed
- Mudiadau ar gyfer ieuenctid
- Mudiadau sydd yn ymwneud a'r celfyddydau
- Mudiadau sydd yn ymwneud a chwaraeon
- Mudiadau sydd yn cynorthwyo'r anabl
- Mudiadau sydd yn ymwneud a hyrwyddo materion lleol

Gall y cynllun ddarparu rhoddion i fudiadau sydd eisoes wedi eu sefydlu. Mae'n hanfodol fod y mudiad wedi lleoli yn un o bentrefi sydd o dan adain y Cyngor Cymuned, ac mae'n hanfodol fod y mudiad yn gallu dangos ei fod yn darparu budd ar gyfer nifer sylweddol o bobl yr ardal.

**Beth gall y rhodd ei ddefnyddio tuag at?**

Gall y rhodd ei ddefnyddio tuag at brosiect cyfalaf neu am gostau rhedeg. Dyma enghreifftiau o beth gall y rhodd ei ddefnyddio tuag at: -

- Offer
- Datblygiad
- Prosiectau
- Hyrwyddo digwyddiad yn yr ardal
- Cyhoeddusrwydd

**Faint o rodd sydd ar gael?**

Dim ond un cais am rhodd a ystyrir gan fudiad mewn un flwyddyn ariannol. Yn amlwg, nid oes gan y Cyngor bwll di waelod o arian a bydd unrhyw gyfraniad yn ddarostyngedig i'w gyllideb oddi tan Adain 137 a 145 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Bydd y Cyngor yn rhoi rhoddion o symiau gwahanol. Mae'r gyllideb rhoddion blynyddol yn gyfyngedig. Mae'n hanfodol fod pob cwestiwn ar y ffurflen gais wedi ei ateb yn gywir a gyda'r manylder posib i greu darlun cynhwysfawr o waith y mudiad yn y gymuned. Oherwydd mai cynllun yw hwn i roi budd i drigolion Ardal Cyngor Llanddeiniolen, mae rhai enghreifftiau ble nad yw yn bosib i'r Cyngor roi rhodd oddi tan y cynllun yma. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Apeliadau cenedlaethol (argyfwng cenedlaethol / rhyngwladol)
- Mudiadau cenedlaethol sydd a dim grŵp lleol;
- Unigolion (e.e. chwaraewyr sydd yn chwilio am noddwyr)
- I ganghennau y gellir eu hariannu drwy eu prif sefydliad;
- Mudiadau / mentrau sydd yn / neu a'r bwriad o greu elw;
- Prosiectau sydd â naws gwleidyddol neu grefyddol iddynt;
- Prosiectau sydd yn gwahaniaethu ar sail oed, lliw, amhariad, statws priodasol, ffordd o fyw a diwylliant, cenedligrwydd, tras, rhyw'r person, rhywioldeb, neu ar sail rhesymau economaidd neu statws cymdeithasol.
- Gwasanaethau a'i hariannir gan gyllidebau statudol;
- Prosiectau a thybir y dylid eu hariannu gan Gyngor Gwynedd neu unrhyw awdurdod praeseptu arall;
- Adeiladau sydd ddim wedi eu hyswirio

**Sut i geisio am rodd?**

Mae angen i bob ymgeisydd ddarparu'r canlynol;

- Ffurflen gais wedi ei chwblhau y gellir ei lawr lwytho o wefan y Cyngor www.cyngorllanddeiniolen.cymru neu sydd ar gael drwy gysylltu â'r Clerc neu unrhyw aelod o'r Cyngor
- Cyfrifon a mantolen gyfredol wedi ei ardystio
- Datganiad banc diweddaraf
- Datganiad i gefnogi eich cais (gan gynnwys lluniau neu gynlluniau os yn briodol)

Dylai'r mudiad gael cyfrif banc yn ei enw ei hun a gall y Cyngor Cymuned ofyn am fwy o fanylion os yn briodol i'r cais. Fe gymerir fod pob ymgeisydd wedi darllen a chytuno i'r gofyniadau a nodir uchod ynghyd a'r amodau meini prawf sydd ynghlwm a chaniatáu arian.

Mae'n ofynnol i bob rhan yn y ffurflen gael ei gwblhau gan amgáu'r dogfennau perthnasol o leiaf erbyn **20fed o Fedi**. Ni ystyrir unrhyw gais a dderbynnir ar ôl hyn. Fe ystyrir ceisiadau oddi tan y categorïau canlynol:-

- Pobl hyn (65 a throsodd) i greu cyfleoedd ac i hyrwyddo ac uchafu cyfleoedd I gymdeithasu ac i ddarparu cefnogaeth a chymorth ble yn briodol;
- Pobl Ifainc (0 - 25) i gefnogi ystod eang o weithgareddau i roi grym i bobl ifanc gwrdd â'i anghenion cymdeithasol, addysgiadol neu hamddena
- Diwylliant a Chelfyddydau i gefnogi ymglymiad cymunedol yn y celfyddydau lleol ac i hyrwyddo gwasanaethau neu ddarpariaethau ar gyfer y celfyddydau yn ardal Llanddeiniolen
- Chwaraeon a Hamddena i gefnogi ac annog cyfranogiad y gymuned leol mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden ac i gefnogi clybiau chwaraeon ddatblygu a gwella ei isadeiledd
- Gwella Amgylchedd i wella amgylchedd ardal Llanddeiniolen, diogelu a chyfoethogi ei dreftadaeth / bioamrywiaeth ac i gynnal / hyrwyddo bywyd cymunedol. (e.e. hanes lleol, ailgylchu neu gadwraeth naturiol)
- Mudiadau Cynghori ac Elusennol Mudiadau sydd yn rhoi Cyngor yn rhad ac am ddim i drigolion a mudiadau elusennol sydd o fydd i drigolion o fewn ardal Cyngor Llanddeiniolen

Os yw'r prosiect yn ddibynadwy ar gymorth ariannol gan y Cyngor Cymuned, yna ni ddylid dechrau'r gwaith hyd nes bydd penderfyniad y Cyngor wedi ei gyfleu gan y Clerc yn ysgrifenedig.

Gall rhoddion fod am swm llai na'r hyn a ofynnwyd amdano.

Os nad yw'r mudiad yn gallu parhau a'r prosiect, yna mae rhaid iddynt ddychwelyd yr arian yn ôl i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Mae'n hanfodol fod y rhodd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr hyn a ofynnwyd amdano.

Bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol.

**Pwy allaf gysylltu i geisio mwy o fanylion neu gymorth i lenwi'r ffurflen?**

Dylech gysylltu â'r Clerc Mrs Eleri Bean, Clerc Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd LL55 3LS ☎ 07926 059902 : clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

Ystyriwch y pwyntiau canlynol wrth lenwi’r cais:

| | |
|---|---|
| 1, Oes apêl i drigolion lleol ac yw’r cais yn hyrwyddo ymglymiad cymunedol? | |
| 2, A yw yn agored i bawb yn y gymuned? | |
| 3, Ydi’r cais yn cefnogi prosiectau lleol? | |
| 4, Ydi’r budd yn aros yn y Gymuned? | |
| 5. A yw yn hyrwyddo cefnogi neu wella’r gymuned? | |
| 6. Ydi’r cais yn creu partneriaeth gyda mudiadau eraill | |
| 7. A ydych wedi amgáu datganiad clir yn amlinellu’r cais? | |
| 8. A ydych wedi amgáu copi o gyfansoddiad y mudiad? (Os ar gael) | |
| 9. Fydd y rhodd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i’r mudiad? | |
| 10. Oes tystiolaeth o geisio denu incwm o ffynhonnau eraill? | |
| 11. Oes manylion unrhyw ariannu eraill ynghyd a datganiad banc? | |
| 12.Oes tystiolaeth o gyfrif banc y mudiad? | |
| 13. Datganiad wedi arwyddo yn cadarnhau fod yr ymgeiswyr wedi darllen a deall anghenion y canllawiau ceisiadau am rhodd. | |